Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau

V355/1W

# Nodiadau ynghylch **dosbarthiadau treth**

I gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.gov.uk**

Mae'r daflen hon yn rhoi canllawiau cyffredinol yn unig. Ni ddylid ei thrin fel datganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith ynghylch unrhyw achos penodol.

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE

INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

# Nodiadau ynghylch dosbarthiadau treth

## Cyflwyniad

Dosberthir cerbydau at ddibenion treth yn ôl eu hadeiladwaith a'r pwrpas y cânt eu defnyddio ar eu cyfer. Rhestrir y prif ddosbarthiadau a'r cerbydau cymwys isod:

| Dosbarth | Math o gerbyd a defnydd |
|---|---|
| **Nwyddau preifat ysgafn (PLG)** | Cerbydau a gofrestrwyd cyn 1 Mawrth 2001:<br>• ceir modur preifat;<br>• cerbydau nwyddau heb fod yn fwy na phwysau refeniw o 3,500kg;<br>• cerbydau a ddefnyddir at ddibenion 'preifat' (heb fod yn fasnach neu fusnes) (gan gynnwys cerbydau 3 olwyn dros 450kg heb eu llwytho)<br>Cerbydau a gofrestrwyd ar neu ar ôl 1 Mawrth 2001:<br>• cerbydau nad ydynt yn dod o fewn cwmpas y 6 dosbarth treth cyntaf, a restrir isod |
| **Car Petrol** | Yn weithredol ers 1 Mawrth 2001. Cerbyd teithwyr yn y categori M1*. Mae'n rhaid bod y cerbyd yn cael ei redeg gan betrol. Cyfraddau treth yn seiliedig ar werth $CO_2$ cerbyd unigol. Bydd cerbydau categori M1 a gofrestrwyd yn gyntaf ar neu ar ôl 1 Ebrill 2017 yn talu cyfradd trwydded gyntaf yn seiliedig ar allyriadau $CO_2$ y cerbyd ac yn talu cyfradd safonol pan fydd y drwydded gyntaf wedi dod i ben. Bydd cerbydau sydd â phris rhestr wreiddiol neu dybiannol dros £40,000 ar yr adeg pan y'u cofrestrwyd yn gyntaf yn talu cyfradd ychwanegol am 5 mlynedd o ddechau'r ail drwydded. |
| **Car Diesel** | Yn weithredol ers 1 Mawrth 2001. Cerbyd teithwyr yn y categori M1*. Mae'n rhaid bod y cerbyd yn cael ei redeg gan ddiesel. Cyfraddau treth yn seiliedig ar werth $CO_2$ cerbyd unigol. Bydd cerbydau categori M1 a gofrestrwyd yn gyntaf ar neu ar ôl 1 Ebrill 2017 yn talu cyfradd trwydded gyntaf yn seiliedig ar allyriadau $CO_2$ y cerbyd ac yn talu cyfradd safonol pan fydd y drwydded gyntaf wedi dod i ben. Bydd cerbydau sydd â phris rhestr wreiddiol neu dybiannol dros £40,000 ar yr adeg pan y'u cofrestrwyd yn gyntaf yn talu cyfradd ychwanegol am 5 mlynedd o ddechau'r ail drwydded. |
| **Car Tanwydd Amgen** | Yn weithredol ers 1 Mawrth 2001. Cerbyd teithwyr yn y categori M1*. Mae'n rhaid bod y cerbyd yn cael ei redeg gan nwy, nwy biodanwydd, hybrid trydan, diesel nwy neu ddiesel trydan. Cyfraddau treth yn seiliedig ar werth $CO_2$ cerbyd unigol. Bydd cerbydau categori M1 a gofrestrwyd yn gyntaf ar neu ar ôl 1 Ebrill 2017 yn talu cyfradd safonol pan ddaw'r drwydded gyntaf i ben. Bydd cerbydau sydd â phris rhestr wreiddiol/pris tybiannol dros £40,000 ar yr adeg pan y'u cofrestrwyd yn gyntaf yn talu cyfradd ychwanegol am 5 mlynedd o ddechrau'r ail drwydded. |
| **Cerbyd sy'n cael ei yrru gan drydan** | Cerbyd sy'n cael ei yrru'n drydanol Cerbyd teithwyr yng nghategori M1*. Ceir trydan, di-allyriadau ac allyriadau isel. Cyfraddau treth yn seiliedig ar werth $CO_2$ cerbyd unigol ar gyfer cerbydau a gofrestrwyd rhwng 1 Mawrth 2001 a 31 Mawrth 2017. Bydd cerbydau categori M1 a gofrestrwyd gyntaf ar neu ar ôl 1 Ebrill 2017 yn talu'r gyfradd safonol. Bydd cerbydau categori M1 a gofrestrwyd gyntaf ar neu ar ôl 1 Ebrill 2025 yn talu cyfradd trwydded gyntaf yn seiliedig ar allyriadau $CO_2$ y cerbyd ac yn talu cyfradd safonol pan fydd y drwydded gyntaf wedi dod i ben. Bydd cerbydau sydd â phris rhestr gwreiddiol neu bris tybiannol dros £40,000 ar y cofrestriad cyntaf yn talu cyfradd ychwanegol am 5 mlynedd o ddechrau'r ail drwydded.<br>Cerbyd nwyddau ysgafn yng nghategori N1*. Bydd cerbydau nwyddau ysgafn trydan a di-allyriadau yn symud i'r gyfradd ar gyfer cerbydau nwyddau ysgafn petrol a diesel.<br>Bydd ceir trydan, faniau a beiciau modur yn talu treth cerbydau. Bydd pob cerbyd arall o fewn y dosbarth treth cerbydau sy'n cael ei yrru gan drydan yn parhau i fod wedi'i eithrio. |

| | |
|---|---|
| **Cerbyd nwyddau ysgafn (pob math o danwydd)** | Yn weithredol o 1 Mawrth 2001. Cerbydau N1* a luniwyd i gludo nwyddau heb fod yn fwy na phwysau refeniw o 3,500kg (gan gynnwys cerbydau 3 olwyn dros 450kg heb eu llwytho). |
| **Cerbyd nwyddau ysgafn Euro 4 (pob math o danwydd)** | Cerbydau nwyddau ysgafn a gofrestrwyd rhwng 1 Mawrth 2003 a 31 Rhagfyr 2006 a luniwyd i gludo nwyddau a heb fod yn fwy na phwysau refeniw o 3,500kg (gan gynnwys cerbydau 3 olwyn dros 450kg heb eu llwytho) ac yn bodloni safonau allyriad Euro 4. |
| **Cerbyd nwyddau ysgafn Euro 5 (pob math o danwydd)** | Cerbydau nwyddau ysgafn a gofrestrwyd rhwng 1 Ionawr 2009 a 31 Rhagfyr 2010 a luniwyd i gludo nwyddau heb fod yn fwy na phwysau refeniw o 3,500kg (gan gynnwys cerbydau 3 olwyn dros 450kg heb eu llwytho) ac yn bodloni safonau allyriad Euro 5. Mae'n rhaid bod y cerbyd yn cael ei redeg gan ddiesel. |
| **Cerbydau nwyddau trwm (HGV)** | Cerbydau sy'n cario nwyddau cyffredinol gyda phwysau refeniw yn fwy na 3,500kg. |
| **HGV preifat** | Cerbydau nwyddau, gyda phwysau refeniw yn fwy na 3,500kg, a ddefnyddir yn breifat. |
| **Mathau arbennig** | Cerbydau sydd wedi derbyn Gorchymyn Cyffredinol Mathau Arbennig (STGO) neu orchymyn unigol ac yn cael eu defnyddio i gario neu gludo llwythi anghyffredin. |
| **Cerbydau cludo** | Cerbydau sy'n cael eu hadeiladu a'u defnyddio ar gyfer cludo'n unig. |
| **Bws** | Bysiau, coetsys, cerbydau gwasanaeth cyhoeddus gyda 9 sedd neu fwy i deithwyr. |
| **Beic modur** | Beiciau modur nad ydynt yn pwyso mwy na 450kg heb eu llwytho. |
| **Beic modur trydan** | Bydd beiciau a beiciau tair olwyn sy'n cael eu rhedeg gan drydan yn symud i'r gyfradd flynyddol ar gyfer y maint injan lleiaf. |
| **Cerbydau arbennig** | Craen symudol, pwmp symudol, peiriant cloddio, tryc gwaith, rholer ffordd, HGV dyn sioe a cherbydau cludo dyn sioe. |
| **Cerbydau ynysoedd bach** | Cerbydau nwyddau wedi'u lleoli a'u defnyddio ar ynysoedd penodol alltraeth. |
| **Cerbyd achub** | Cerbydau achub a thryciau achub sy'n pwyso dros bwysau refeniw o 3,500kg. |
| **Consesiwn arbennig** | Peiriannau amaethyddol, peiriannau torri gwair, peiriant graeanu, aradr eira, cerbydau ager. |
| **Cerbydau argyfwng** | Ambiwlans (gan gynnwys milfeddygol), peiriant tân, y gwasanaeth tân, tîm achub pwll glo, cludo bad achub, awdurdod goleudy a'r heddlu. |
| **Cerbydau di-dreth** | Cerbydau 'defnydd cyfyngedig', cerbydau a ddefnyddir gan berson anabl, cerbyd teithwyr anabl, cerbydau o ddiddordeb hanesyddol, cerbydau'r gwasanaeth iechyd gwladol, cerbydau'r goron. |

*M1 – 'cerbydau a ddefnyddir i gludo teithwyr ac sy'n cynnwys dim mwy nag 8 sedd yn ychwanegol at sedd y gyrrwr'. Gwirir allyriad $CO_2$ fel rhan o'r broses cymeradwyo math, ac fe'i cofnodir ar dystysgrif cydymffurfiaeth cerbydau unigol.

*N1 – a ddiffinnir fel 'cerbydau a ddefnyddir i gludo nwyddau ac sydd â màs uchafswm nad yw'n fwy na 3.5 tunnell'. Gwirir allyriadau $CO_2$ fel rhan o'r broses cymeradwyo math, ac fe'i cofnodir ar dystysgrif cydymffurfiaeth cerbyd unigol.
Mae gwybodaeth am gyfraddau treth cerbydau ar gael o **www.gov.uk/tablau-cyfraddau-treth-cerbyd**

O fis Ebrill 2017 ymlaen, bydd unrhyw gerbyd sy'n cael ei gofrestru'n gyntaf yn nosbarth treth car petrol, car diesel a char tanwydd amgen yn hawlio cyfradd wahanol o dreth cerbyd. Gelwir y rhain yn gyfraddau trwydded gyntaf.
Mae manylion llawn ynghylch cyfraddau trwydded gyntaf ar gael yn **www.gov.uk/tablau-cyfraddau-treth-cerbyd**

Mae manylion llawn ynghylch cyfraddau treth ar gael yn **www.gov.uk/tablau-cyfraddau-treth-cerbyd/cyfraddau-treth-cerbyd-eraill**
Mae nodiadau manwl ar y gwahanol ddosbarthiadau yn dilyn.

## 1 Nwyddau ysgafn preifat (PLG)

Mae'r dosbarth hwn yn cynnwys ceir preifat a cherbydau nwyddau ysgafn yn bennaf (nid yn fwy na phwysau refeniw o 3,500kg) nad ydynt yn dod o dan y cynlluniau Treth Car (VED) Graddedig. Fodd bynnag, mae unrhyw gerbyd nad yw'n dod o fewn y dosbarthiadau eraill, a ddisgrifir yn y llyfryn hwn, yn dod o fewn y dosbarth 'PLG' at ddibenion treth. Yn y dosbarth treth 'PLG', mae 2 fand treth cerbyd:

Mae cerbydau sydd â maint injan hyd at a gan gynnwys 1549cc yn talu cyfradd is, tra bod cerbydau â maint injan 1550cc a throsodd yn talu cyfradd treth safonol.

### 1.1 Treth Car Raddedig

Ceir 4 elfen:

i) Cerbydau teithwyr a gofrestrwyd ers 1 Mawrth 2001 a'r math a gymeradwywyd fel categori M1, mae'r dosbarth a chyfradd y dreth sy'n daladwy ar gyfer ceir diesel, petrol a thanwydd amgen yn seiliedig ar gyfuniad o fath tanwydd y cerbyd ac allyriad $CO_2$ (wedi'i fesur fel rhan o'r broses cymeradwyo math)

ii) Cerbydau nwyddau ysgafn a gofrestrwyd ers 1 Mawrth 2001 a'r math a gymeradwywyd fel N1 (faniau ysgafn yn bennaf â phwysau refeniw heb fod yn fwy na 3,500kg)

iii) Cerbydau nwyddau ysgafn Euro 4 a gofrestrwyd rhwng 1 Mawrth 2003 a 31 Rhagfyr 2006 a luniwyd i gludo nwyddau a heb fod yn fwy na phwysau refeniw o 3,500kg (gan gynnwys cerbydau 3 olwyn dros 450kg heb eu llwytho) ac yn bodloni safonau allyriad Euro 4

iv) Cerbydau nwyddau ysgafn Euro 5 a gofrestrwyd rhwng 1 Ionawr 2009 a 31 Rhagfyr 2010 a luniwyd i gludo nwyddau heb fod yn fwy na phwysau refeniw o 3,500kg (gan gynnwys cerbydau 3 olwyn dros 450kg heb eu llwytho) ac yn bodloni safonau allyriad Euro 5. Mae'n rhaid bod y cerbyd yn cael ei redeg gan ddiesel

### 1.2 Cerbydau a gofrestrwyd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2017

i) Ar gyfer y drwydded gyntaf yn unig, ar gyfer math o gerbydau teithwyr a gymeradwywyd fel categori M1 neu un o'i is-gategorïau, mae'r dosbarth a chyfradd y dreth sy'n daladwy ar gyfer ceir diesel, petrol a thanwydd amgen yn parhau'n seiliedig ar gyfuniad o fath tanwydd y cerbyd ac allyriad $CO_2$ (wedi'i fesur fel rhan o'r broses cymeradwyo math)

ii) a) bydd cyfradd safonol yn gymwys ar gyfer pob trwydded ddilynol i geir diesel, petrol a thanwydd amgen. b) bydd cyfradd ychwanegol yn gymwys ar gyfer y cerbydau uchod gyda phris rhestr wreiddiol/pris tybiannol o dros £40,000 y diwrnod cyn y dyddiad y trethir ac y cofrestrir y cerbyd

## 2 Dosbarth Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV)

Mae'r term 'Cerbyd Nwyddau' yn golygu cerbyd a yrrir yn fecanyddol (heblaw am feic modur neu feic tair olwyn heb fod dros 450kg heb ei lwytho) sydd wedi'i adeiladu neu ei addasu ar gyfer cludo nwyddau neu lwyth o unrhyw ddisgrifiad, gan gynnwys samplau, ac sy'n fwy na phwysau refeniw o 3,500kg. Mae cerbyd nwyddau'n destun taliad treth yn y dosbarth 'HGV' os bydd yn cludo nwyddau ar gyfer, neu mewn cysylltiad â masnach neu fusnes neu ar gyfer llogi neu wobrwyo.

O 1 Ebrill 2011, mae gofyniad deddfwriaethol ar gyfer y rhai hynny yn nosbarthiadau treth HGV i ddatgan os oes gan eu cerbyd Grogiant Ffordd Gyfeillgar (RFS). Gellir dod o hyd i hyn wrth gyfeirio at y Dystysgrif Cymeradwy Math o Gerbyd Nwyddau (GVTA) neu Dystysgrif Cydymffurfio. I hysbysu DVLA ynghylch RFS, mae angen ychwanegu'r llythyren R at y ffurflen V55, ar ôl dosbarth treth y cerbyd, er enghraifft 'HGV R'.

## 3 HGV Preifat

Trwyddedir cerbydau nwyddau trwm a ddefnyddir heb eu llwytho, yn breifat neu ar gyfer dibenion hyfforddi gyrwyr, yn y dosbarth treth 'HGV Preifat'. Os defnyddir cerbyd wedi'i lwytho at ddibenion masnachol nid yw'r dosbarth HGV Preifat yn gymwys ac mae'n rhaid trethu yn y dosbarth HGV.

## 4 Mathau Arbennig

Mae cerbydau 'mathau arbennig' yn gerbydau nwyddau neu locomotifau a ddefnyddir ar gyfer gweithrediadau allan o'r cyffredin. Yr amodau ar gyfer treth yn y dosbarth treth Mathau Arbennig yw:

### (A) O ran adeiladwaith

rbyd nwyddau neu locomotif sydd ei hun yn cludo llwyth anwahanadwy annormal neu ei ddefnyddio i dynnu ôl-gerbydau sy'n cludo llwythi anwahanadwy annormal.

### (B) Defnydd

Mae Gorchymyn Cerbydau Modur (Awdurdodi Mathau Arbennig) (Cyffredinol) 2003 (STGO) neu Orchymyn NI Cerbydau Modur (Awdurdodi Mathau Arbennig) 1997 yn awdurdodi llwythi anwahanadwy annormal i'w symud ar ffyrdd. Gellir defnyddio cerbydau arbennig neu ôl-gerbydau sy'n cludo llwythi o ddimensiynau anarferol ar y ffordd o dan yr STGO.

Gellir dod o hyd i Reoliadau STGO ar y rhyngrwyd yn: **www.legislation.gov.uk/uksi/2003/1998/contents** neu **www.legislation.gov.uk/nisr/1997/109/contents**

## 5 Cerbydau cludo cyffredinol

Mae'r term 'Cerbyd cludo nwyddau' yn golygu cerbyd a adeiladir ac a ddefnyddir ar ffyrdd yn unig ar gyfer cludo nwyddau ac nid at ddiben cludo llwyth neu gael llwyth wedi'i ddodi arno heblaw am yr hyn sydd ei angen ar gyfer ei yriant neu offer.

## 6 Bws

Mae'r dosbarth treth bws yn gymwys ar gyfer cerbydau sydd â 9 neu fwy o seddau i deithwyr a ddefnyddir i gludo teithwyr ar gyfer llogi neu wobrwyo; hynny yw cerbydau sy'n bodloni diffiniad y Cerbyd Gwasanaeth Cyhoeddus (PSV).

Nid yw bysiau a ddefnyddir at ddibenion gwirfoddol, cymunedol neu ddibenion eraill nad ydynt yn gwneud elw'n syrthio i'r dosbarth bws oherwydd nad os angen trwydded PSV arnynt. Trethir y cerbydau hyn ar raddfa PLG.

## 7 Beic modur

Mae'r term 'Beic modur' yn golygu beic modur neu feic modur tair olwyn o dan 450kg heb ei lwytho.

Mae 'beic modur' yn cynnwys sgwter modur 2 olwyn, beic sydd ag atodiad i'w yrru gan bŵer mecanyddol a beic modur yr atodir seicar ato.

Mae 'beic modur 3 olwyn' yn cynnwys sgwter modur 3 olwyn a beic 3 olwyn sydd ag atodiad ar gyfer ei yrru gan bŵer mecanyddol.

## 7.1 Beic modur trydan

O 1 Ebrill 2025, codir tâl sy'n cyfateb i'r beic modur neu feic 3 olwyn maint injan lleiaf ar feiciau modur trydan a beiciau 3 olwyn.

## 8 Cerbydau arbennig

Mae'r dosbarth treth 'Cerbyd arbennig' yn cynnwys:

- Craen symudol
- Pympiau symudol
- Peiriant cloddio
- Tryc gwaith
- Rholer ffordd
- HGV dyn sioe
- Cludo nwyddau dyn sioe

Mae cerbydau o'r disgrifiadau hyn heb fod yn fwy na phwysau refeniw o 3,500kg yn talu'r gyfradd PLG a threth yn y dosbarth PLG. Mae cerbydau o'r disgrifiadau hyn dros 3,500kg yn talu'r gyfradd HGV sylfaenol yn y dosbarth cerbydau arbennig. Os defnyddir y cerbydau hyn at ddibenion y tu allan i'r consesiwn hwn, mae'r gyfradd HGV briodol yn gymwys.

## 8.1 Craen symudol

Diffinnir craen symudol fel cerbyd sydd wedi'i lunio a'i adeiladu fel craen symudol ac a:

i) ddefnyddir yn unig ar ffyrdd fel craen mewn cyswllt â gwaith a wneir ar safle yn y cyffiniau agos neu fynd i a dod o'r man lle mae'n cael ei ddefnyddio fel craen

ii) pan fydd yn mynd yn ei flaen yn y fath fodd nad yw'n cludo unrhyw lwyth heblaw am yr hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer ei yrru neu offer

## 8.2 Cerbydau pwmpio symudol

Mae 'cerbydau pwmpio symudol' yn golygu cerbyd:

a) a adeiladir neu a addasir ar gyfer defnydd a'i ddefnyddio ar gyfer cludo pwmp a jib

b) a ddefnyddir ar ffyrdd yn unig:
   - i) pan fydd y cerbyd yn llonydd a defnyddir y pwmp i bwmpio deunydd o bwynt yn y cyffiniau agos i bwynt arall o'r fath
   - ii) at ddiben mynd i a dod o fan lle bydd y pwmp i'w neu wedi'i ddefnyddio

c) sydd, pan yn mynd yn ei flaen yn y fath fodd, nad yw'n cludo:
   - i) y deunydd sydd i'w neu wedi'i bwmpio
   - ii) rhyw lwyth arall sy'n angenrheidiol ar gyfer gyrru neu offer y cerbyd neu roi'r pwmp ar waith

Mae'n rhaid i gerbydau pwmpio symudol fodloni'r gofynion canlynol.

Mae'r pwmp a'r jib:

a) wedi'u hadeiladu fel rhan o'r cerbyd

b) wedi'u llunio fel bod deunydd sy'n cael ei bwmpio gan y pwmp yn cael ei anfon i uchder neu ddyfnder dymunol drwy biben;
   - i) sydd wedi'i chysylltu â'r pwmp a'r jib
   - ii) sydd wedi'i chodi neu'i gostwng i'r uchder neu'r dyfnder hwnnw wrth roi'r jib ar waith

## 8.3 Peiriant cloddio

Mae'r term 'Peiriant cloddio' yn golygu cerbyd a lunir, a adeiladir ac a ddefnyddir at ddiben cloddio ffos neu unrhyw fath o waith tyllu neu balu a:

i) ddefnyddir ar ffordd yn unig ar gyfer gwaith tyllu neu balu neu ar gyfer mynd i neu o'r fan lle gwneir y gwaith

ii) pan fydd yn symud ymlaen yn y fath fodd nad yw'n cludo unrhyw lwyth heblaw am yr hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer ei yriant neu offer

Gellir dosbarthu cywasgwr symudol fel peiriant cloddio (hynny yw y rhai hynny sy'n ffurfio rhan o'r cerbyd ac nad yw'n cael ei dynnu fel ôl-gerbyd) a ddefnyddir yn unig at ddiben cyflenwi pŵer i ddriliau niwmatig i'w defnyddio'n unol â'r amodau uchod.

## 8.4 Tryc gwaith

Mae'r term 'Tryc gwaith' yn golygu cerbyd nwyddau (hynny yw cerbyd a adeiladir neu a addasir ar gyfer defnydd ac i'w defnyddio ar gyfer cludo nwyddau neu lwyth o unrhyw ddisgrifiad) a lunir i'w defnyddio mewn adeiladau preifat a'i defnyddio ar ffyrdd yn unig:

i) i gludo nwyddau rhwng adeiladau preifat a cherbyd ar ffordd yn y cyffiniau agos

ii) gan symud rhwng un rhan ac un arall neu i adeiladau preifat eraill yn y cyffiniau agos

iii) mewn cysylltiad â gwaith ffordd yn neu yng nghyffiniau agos safle gwaith o'r fath

### 8.5 Rholwyr ffordd
Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar adeiladu rholiwr ffordd neu yn yr amgylchiadau lle mae'n cael ei ddefnyddio.

### 8.6 HGV dyn sioe
Cerbyd nwyddau dyn sioe yw cerbyd a gofrestrir yn enw'r unigolyn sy'n dilyn busnes dyn sioe teithiol ac a ddefnyddir yn unig ganddo at y diben hwnnw, ac sy'n gerbyd nwyddau sydd wedi'i osod yn barhaol gyda fan i fyw ynddi neu ryw fath arbennig arall o gorff neu aradeiledd, sy'n ffurfio rhan o offer sioe y ceidwad cofrestredig.

### 8.7 Cerbyd cludo nwyddau dyn sioe
Mae'r term 'Cerbyd cludo nwyddau dyn sioe' yn golygu cerbyd a adeiladir ac a ddefnyddir ar ffyrdd yn unig ar gyfer cludo nwyddau ac nid at ddiben cludo neu gael unrhyw lwyth wedi'i osod arno sydd yn angenrheidiol ar gyfer ei yriant neu offer ac sydd wedi'i gofrestru yn enw'r unigolyn sy'n dilyn busnes dyn sioe teithiol a'i ddefnyddio'n unig ganddo at ddiben ei fusnes ac nid at unrhyw ddiben arall.

### 9 Cerbydau ynysoedd bach
Mae'r dosbarth 'Ynysoedd bach' ar gyfer cerbydau nwyddau'n unig a leolir ac a ddefnyddir ar ynysoedd penodol oddi ar yr arfordir. Gofynnir i gerbydau sy'n hawlio hawl i'r dosbarth am y tro cyntaf drethu yn DVLA, Abertawe SA99 1DZ. Mae gan gerbydau nwyddau dros 3,500kg ac i fyny at 17,000kg sy'n hawlio'r consesiwn, yr hawl i weithredu ar y tir mawr hefyd. Cyfyngir cerbydau dros y pwysau hyn sy'n hawlio'r consesiwn hwn ac sy'n teithio i'r tir mawr i bellter o 5km mewn porthladdoedd er mwyn caniatáu llwytho a dadlwytho.

### 10 Cerbyd achub
Mae'r term 'Cerbyd achub' yn golygu cerbyd sydd â phwysau'n fwy na 3,500kg, a adeiladir neu wedi'i addasu'n barhaol yn bennaf at ddiben codi, tynnu a chludo cerbyd anabl.

### 11 Cerbyd sy'n cael ei yrru gan drydan
Mae'r term 'Cerbyd wedi'i yrru gan drydan' yn golygu un lle mae'r pŵer ysgogiad trydan yn deillio o ffynhonnell y tu allan i'r cerbyd neu o unrhyw batri storio trydan, nad yw'n gysylltiedig â ffynhonnell pŵer, pan fydd y cerbyd yn symud.

### 12 Consesiwn arbennig

Mae'r term 'Consesiwn arbennig' yn ddisgrifiad casgliadol ar gyfer y dosbarthiadau treth canlynol sydd heb dreth cerbyd ers Ebrill 2001:

| | |
|---|---|
| Peiriannau amaethyddol | Tractor amaethyddol<br>Tractor oddi ar y ffordd<br>Peiriant amaethyddol<br>Cerbyd amaethyddol ysgafn |
| Peiriannau torri gwair | |
| Trydan | |
| Peiriant graeanu | |
| Aradr eira | |
| Cerbydau ager | |

### 12.1 Peiriannau amaethyddol
Mae'r dosbarth treth 'Peiriannau amaethyddol' yn cynnwys:

i) tractor amaethyddol – tractor a ddefnyddir ar ffyrdd yn unig at ddibenion sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth, garddwriaeth, coedwigaeth neu weithgareddau sy'n syrthio o fewn:-
   a) torri ymylon wrth ochr ffyrdd
   b) torri perthi neu goed ar ochr ffordd neu ymylon wrth ochr ffyrdd

ii) Mae tractor oddi ar y ffordd yn golygu tractor nad yw'n dractor amaethyddol ac y sydd:-
   a) wedi'i lunio a'i adeiladu'n bennaf ar gyfer ei ddefnyddio heblaw am ar ffyrdd
   b) ddim yn gallu oherwydd y modd y'i adeiladwyd o fynd y tu hwnt i gyflymder o 25 milltir yr awr ar dir gwastad o dan ei bŵer ei hun

iii) Peiriant Amaethyddol – peiriant a luniwyd/newidiwyd yn arbennig i gyflawni gweithred amaethyddol ar y tir (er enghraifft combein)

iv) Cerbyd Amaethyddol Ysgafn – mae'n golygu cerbyd:
   a) y mae ganddo bwysau refeniw dim mwy na 1,000kg
   b) wedi'i lunio a'i adeiladu ar gyfer sedd i'r gyrrwr yn unig
   c) wedi'i lunio a'i adeiladu'n bennaf i'w ddefnyddio heblaw am ar ffyrdd
   d) a ddefnyddir yn unig at ddibenion sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth, garddwriaeth neu goedwigaeth

### 12.2 Peiriant torri gwair
Gellir ystyried y term 'Peiriant torri gwair' fel cerbyd a lunir ac a adeiladir yn unig ar gyfer torri gwair ac a ddefnyddir yn unig at y diben hwnnw (ond nid tractor a ddefnyddir i dynnu torf beiriannau torri gwair, sydd i'w drethu fel Peiriant amaethyddol).

### 12.3 Peiriant graeanu
Mae peiriant graeanu'n gerbyd sydd wedi'i osod â pheirianwaith ar gyfer taenu halen, tywod neu ddeunydd tebyg ac a ddefnyddir yn unig ar gyfer trin ffyrdd rhag rhew, eira ac iâ (gyda neu heb ddeunyddiau a ddefnyddir at ddiben y peiriant).

### 12.4 Aradr eira
Aradr eira yw cerbyd a gedwir ac a ddefnyddir yn unig ar gyfer clirio eira o ffyrdd gydag aradr eira neu beiriant tebyg (er enghraifft chwythwr) neu a ddefnyddir at ddiben mynd i neu ddod o'r man lle y bydd i'w ddefnyddio i glirio eira o ffyrdd.

### 12.5 Cerbydau ager
Mae pob cerbyd ager wedi bod yn ddi-dreth ers 1 Ebrill 2001.

### 13 Cerbydau argyfwng
Mae'r term 'Cerbydau argyfwng' yn ddisgrifiad casgliadol ar gyfer y dosbarthiadau treth canlynol sydd i gyd heb dreth cerbyd

- Ambiwlans
- Peiriant tân
- Y gwasanaeth tân
- Achub mewn pyllau glo
- Cludo bad achub
- Yr awdurdod goleudai
- Yr heddlu

### 13.1 Ambiwlans

Mae 'Ambiwlans dynol' yn golygu:

a) cerbyd a adeiladir neu a addasir ar gyfer, ac na ddefnyddir at unrhyw ddiben arall ond am gludo pobl sâl, sydd wedi'u hanafu neu'r anabl i neu o ganolfannau lles neu fannau lle rhoddir triniaeth feddygol neu ddeintyddol

b) y gellir ei adnabod yn syth fel cerbyd a ddefnyddir i gludo pobl o'r fath oherwydd bod 'Ambiwlans' wedi'i nodi ar y ddwy ochr

Mae 'Ambiwlans milfeddygol' yn golygu:

a) cerbyd a ddefnyddir at ddim ddiben arall ond am gludo anifeiliaid sâl neu sydd wedi'u hanafu i neu o fannau lle rhoddir triniaeth filfeddygol

b) y gellir ei adnabod yn syth fel cerbyd a ddefnyddir i gludo anifeiliaid o'r fath oherwydd bod 'Ambiwlans milfeddygol' wedi'i nodi ar y ddwy ochr

### 13.2 Peiriant tân a'r Gwasanaeth tân

Mae peiriannau tân yn:

a) cael eu hadeiladu neu'u haddasu i'w defnyddio at ddiben ymladd tân, adfer neu'r ddau

b) yn cael eu defnyddio'n unig at y diben mewn perthynas y mae gan awdurdod tân ac achub o dan Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu Orchymyn Tân ac Achub (NI) 2006 swyddogaethau (pwy bynnag sy'n eu defnyddio at y dibenion hynny)

Unrhyw gerbyd a gedwir gan awdurdod tân ac achub tra ei fod yn cael ei gadw ar ffordd at ddibenion swyddogaethau'r awdurdod tân.

### 13.3 Achub mewn pyllau glo

Nid oes gan gerbydau a ddefnyddir yn unig fel cerbydau achub mewn pyllau glo neu at ddibenion cludo neu dynnu offer weindio argyfwng mewn pyllau glo dreth cerbyd. Mae cerbydau hefyd sydd â gwelyau cludo, blancedi, cyfarpar cymorth cyntaf, offer anadlu ac adfywio ac offer ymladd tân neu sy'n cludo cyflenwadau o offer o'r fath hefyd yn ddi-dreth. Mae'n rhaid i'r cerbydau sy'n elwa o fod yn ddi-dreth beidio â chael eu defnyddio ar gyfer unrhyw ddiben ond am gludo gweithwyr ac offer achub i byllau glo yn ystod digwyddiad neu ddril ymarfer achub, neu fel ambiwlansys i gludo'r glowyr sydd wedi'u hanafu i'r ysbyty. Dylai'r cerbydau sy'n gymwys ar gyfer bod yn ddi-dreth gael eu nodi'n glir fel cerbydau 'Achub mewn pyllau glo'.

### 13.4 Cerbydau Cludo bad achub ac Awdurdod goleudai

Nid oes rhaid talu treth cerbyd ar gyfer cerbydau a ddefnyddir yn unig i dynnu badau achub a chludo'r cyfarpar sy'n angenrheidiol i'r badau.

Mae cerbydau a ddefnyddir gan awdurdodau goleudai cyffredinol Tŷ Trinity a Chomisiynwyr ar gyfer Goleudai Gogleddol hefyd yn ddi-dreth.

### 13.5 Cerbydau'r heddlu

Mae dosbarth treth 'yr Heddlu' yn gymwys ar gyfer cerbydau a ddefnyddir at ddibenion yr heddlu'n unig.

### 14 Defnydd cyfyngedig

Mae'n gymwys ar gyfer cerbyd a ddefnyddir yn unig mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth, garddwriaeth neu goedwigaeth ac nad yw'n teithio ar y ffordd yn fwy na 1.5km yn ystod pob taith rhwng gwahanol ardaloedd o dir y mae'r un unigolyn yn berchen arno.

### 15 Dosbarth treth anabl

Gellir gwneud cais am eithrio rhag treth cerbyd ar gyfer cerbydau a ddefnyddir gan, neu at ddibenion person anabl.

Mae'n rhaid i'r cerbyd gael ei gofrestru yn enw'r person anabl neu'r enwebedig a enwir ar y dystysgrif eithrio rhag treth. Mae'n rhaid i'r cerbyd gael ei ddefnyddio'n unig at ddibenion y person anabl.

Mae'n rhaid i gais gael ei gefnogi gan un o'r canlynol:

- Tystysgrif Hawl i gyfradd uwch elfen symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)
- Tystysgrif Hawl i elfen symudedd mwy y Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)
- Tystysgrif Hawl i gyfradd uwch y Taliad Anabledd i Blant (CDP)
- Tystysgrif Hawl i elfen symudedd mwy y Taliad Anabledd i Oedolion (ADP)
- Symudedd Pensiynwyr y Rhyfel WPA 0442
- Tystysgrif Hawl i Lwfans Byw i'r Anabl i Oedolion yn yr Alban (SADLA)

Mae cludiant a cherbydau anabl heb fod yn fwy na 508kg o bwysau heb eu llwytho sydd wedi'u haddasu a'u defnyddio neu'u cadw ar ffordd, wedi'u heithrio rhag treth cerbyd ac nid oes angen tystysgrif eithrio arnynt i ddibenion trethu. Mae unrhyw gerbyd o'r fath sy'n pwyso llai na 113.4kg (250pwys) ac na all fynd yn gyflymach na 4 milltir yr awr wedi'i eithrio rhag cael ei gofrestru yn ogystal â'i drethu.

### 16 Cerbyd teithiwr anabl

Mae'r dosbarth treth hwn ar gyfer cerbydau (heblaw am ambiwlansys) a ddefnyddir yn unig gan sefydliadau sy'n darparu cludiant i'r anabl. Mae Cerbydau teithwyr anabl yn amodol ar drethu blynyddol. Cyn trethu yn y dosbarth hwn, mae'n rhaid i DVLA sefydlu bod y cais gan sefydliad a gydnabyddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel un sy'n ymwneud â gofal yr anabl. Mae'n rhaid i'r cais gael ei gefnogi gan ddatganiad gan y sefydliad ar bapur â phennawd bod y cerbyd yn cael ei ddefnyddio'n unig at ddiben cludo teithwyr anabl.

### 17 Cerbydau o ddiddordeb hanesyddol

Mae pob cerbyd, heblaw am fysiau a cherbydau nwyddau a ddefnyddir yn fasnachol, wedi'u heithrio rhag treth cerbyd. O 1 Ebrill bob blwyddyn, mae cerbydau a gynhyrchwyd cyn 1 Ionawr 40 mlynedd yn ôl yn gymwys ar gyfer y dosbarth treth hanesyddol. Gweler 'Trethu cerbydau o ddiddordeb hanesyddol' (INF34) i gael mwy o wybodaeth.

### 18 Cerbydau'r gwasanaeth iechyd gwladol

Trethir pob cerbyd awdurdod iechyd ac ymddiriedolaeth y GIG heblaw am ambiwlansys yn y dosbarth treth 'Cerbyd y gwasanaeth iechyd gwladol.' Mae'r dosbarth treth hwn hefyd yn gymwys ar gyfer cerbydau elusen negesydd meddygol sy'n bodloni'r holl ddiffiniadau canlynol:

(a) defnyddir y cerbyd yn bennaf ar gyfer cludo eitemau meddygol

(b) gellir adnabod y cerbyd yn syth fel cerbyd a ddefnyddir ar gyfer cludo eitemau meddygol wrth nodi 'Gwaed' ar y ddwy ochr

(c) cofrestrir y cerbyd yn enw'r elusen ei phrif ddiben yw darparu gwasanaethau ar gyfer cludo eitemau meddygol

### 19 Cerbydau'r goron

Ar gyfer cerbydau sy'n eiddo, neu ar logi neu fenthyciad contract, i adran o'r llywodraeth. Ar yr amod bod y cerbyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion swyddogol yn unig ac wedi ei gofrestru yn enw adran y llywodraeth.

**Gallwch ddewis derbyn nodiadau atgoffa treth cerbyd drwy negeseuon testun neu e-byst**

**Ewch i: gov.uk/dvla/cyfrif**